# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## Offerynnau Statudol Gydag Adroddiadau Clir

## 10 Mawrth 2014

**CLA363 - Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2014**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) 2004 (O.S. 2004/3280 (Cy. 284)) sydd yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1122/2009 mewn perthynas â thrawsgydymffurfio o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae'r Rheoliadau presennol yn ymwneud yn bennaf â gwarchod ansawdd dŵr daear.

**CLA364 – Rheoliadau Cynllunio (Sylweddau Peryglus) (Diwygio) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyfrannu at weithredu, o ran Cymru, Erthygl 30 o Gyfarwyddeb 2012/18/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reoli peryglon damweiniau mawr sy'n ymwneud â sylweddau peryglus (OJ Rhif L 197, 24.7.2012, tt.1–37 ("Cyfarwyddeb Seveso III").

**CLA365 – Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) (Diwygio) 2014**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008 ("Gorchymyn 2008") drwy estyn y ddarpariaeth ar gyfer cynnydd yn lefel y rhyddhad ardrethi i fusnesau bach hyd 31 Mawrth 2015. Dim ond i gategorïau penodol o drethdalwr, y mae Gorchymyn 2008 yn eu cwmpasu, y mae'r estyniad o'r rhyddhad yn gymwys.

**CLA366 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi) (Rhestri Lleol) 1989 (“Rheoliadau 1989”) yn gwneud darpariaeth ar gyfer casglu a gorfodi ardrethi annomestig. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1989.

Mae rheoliad 2(2) yn galluogi awdurdod bilio (oni bai y gofynnir am gopi caled) i ddarparu'r wybodaeth y mae’n ofynnol iddi gael ei darparu gyda hysbysiad galw am dalu ardrethi annomestig, drwy gyhoeddi'r wybodaeth honno ar wefan.